

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneirin Bevan, Deintyddfa  
Tŷ Sarratt**

10 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	19
6.	Y Camau Nesaf.....	21
	Atodiad A.....	22

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Tŷ Sarratt, Stryd Fawr, Trecelyn, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 10 Chwefror 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.<sup>1</sup>

Mae AGIC hefyd yn deall bod Deintyddfa Tŷ Sarratt yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, gydag oddeutu 33% yn gleifion y GIG a 66% yn gleifion preifat. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

<sup>1</sup> Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferwyd yn y sefydliad yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Tŷ Sarratt yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Trecelyn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ar adeg yr arolygiad, roedd tîm staff y practis yn cynnwys dwy nyrs, tri deintydd, un hylenydd ac un derbynnydd. Dywedwyd wrthym fod dau o'r deintyddion yn bwriadu gadael y practis yn y misoedd yn dilyn yr adolygiad, ac y byddai'r deintydd oedd ar ôl yn cymryd yr awenau.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredin a gwasanaeth hylenydd.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Tŷ Sarratt yn bodloni safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd nifer o gleifion wedi bod yn mynychu'r practis am dros 20 mlynedd, a gwelsom fod y staff yn adnabod y cleifion yn dda. Roedd angen i'r practis ddatblygu system gadarn er mwyn cael adborth gan gleifion a gwella'r wybodaeth a ddarperir i gleifion.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom ganfod bod angen gwella'r broses ddadheintio ar gyfer glanhau offer deintyddol, y trefniadau sicrhau ansawdd yn y practis, a chysondeb cadw cofnodion cleifion.

Ar adeg yr arolygiad, roedd cynlluniau ar waith yn y practis i newid perchnogaeth, ond nid oedd y trosglwyddiad hwn wedi ei gwblhau. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen gwella rhai o'r trefniadau rheoli i helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, fel cynnal arfarniadau staff/adolygu gan gymheiriaid a diweddarau polisiau.

Roedd y practis mewn hen adeilad, ac roedd angen ei ailwampio'n gyffredinol. Ar y cyfan, roedd y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Ar y cyfan, roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn trwy ddefnyddio ramp pren.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dyweddodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd nifer o'r cleifion wedi bod yn mynychu'r practis am dros 20 mlynedd, a gwelsom fod y staff yn adnabod y cleifion yn dda. Roedd angen i'r practis ddatblygu system gadarn er mwyn cael adborth gan gleifion a gwella'r wybodaeth a ddarperir i gleifion.**

Gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd 16 holiadur cleifion wedi'u cwblhau. Hefyd, gwnaethom siarad ag un claf ar ddiwrnod yr arolygiad, a gwnaethom arsylwi ar rywfaint o sgwrsio cyffredinol rhwng y staff a'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Roedd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wedi bod yn y practis am gyfnod o rhwng 20 a 50 mlynedd. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol, ac roedd yn amlwg bod y staff yn adnabod y cleifion yn dda.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Popeth yn dda iawn."*

*"Rwyf bob amser wedi derbyn triniaeth ardderchog yn y ddeintyddfa hon."*

*"Mae'r practis wastad wedi bod yn lle cyfeillgar i ymweld ag ef, ac nid yw'r ymweliadau erioed wedi bod mor boenus â'r disgwyl. Triniaeth ardderchog a chanolbwyntio da iawn ar fanylion."*

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn esbonio triniaeth i gleifion ar lafar, a gwelsom enghreifftiau o rywfaint o'r wybodaeth am driniaeth oedd yn cael ei rhoi i gleifion ar gyfer triniaethau penodol fel tynnu dannedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol brys. Gwelsom arwydd y tu allan i ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt brys, a gwnaethom gadarnhau hefyd bod rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.



Gwelsom enghreifftiau o arolygon cleifion oedd wedi cael eu cynnal gan y practis yn y gorffennol, ond nid oedd y rhain wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Gwnaethom drafod bod angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer cael adborth rheolaidd gan gleifion, fel defnyddio blwch awgrymiadau a holiaduron i gleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer ceisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.***

Dywedodd chwech o gleifion wrthym nad oeddent yn siŵr sut i leisio cwyn. Gwelsom fod poster a pholisi cwynion ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros/derbynfa, ond gwnaethom sylwi bod yr ysgrifen ar y polisi cwynion yn fach ac yn anodd ei gweld o bell. O ystyried y sylwadau gan y cleifion, efallai bydd angen i'r practis ystyried gwneud y polisi cwynion yn haws ei weld. Rydym wedi gwneud argymhelliad ynghylch y polisi cwynion yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 18).

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiad ymlaen llaw ac apwyntiad brys. Dywedwyd wrthym fod amseroedd penodedig ar gyfer apwyntiadau brys bob dydd, oedd yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu gweld yn gyflym, lle bo angen.

Nid oedd gan y practis wefan, ond dywedodd y deintydd wrthym eu bod yn bwriadu datblygu gwefan yn y dyfodol. Gwnaethom drafod yr angen i'r practis gydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu wrth ddatblygu'r wefan.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, roedd y taflenni hyn yn anodd eu gweld gan eu bod y tu ôl i wybodaeth arall, ac mae angen eu diweddarau gan eu bod yn cyfeirio cleifion yn anghywir at Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili yn hytrach na Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddarau'r wybodaeth ar daflenni'r practis gyda'r manylion cywir er mwyn i gleifion allu cysylltu â'r bwrdd iechyd.***

Gwelsom fod detholiad o wybodaeth hyrwyddo iechyd wedi'i arddangos yn y dderbynfa/ystafell aros. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i ysmegu, gofalu am ddannedd plant, hylendid, ac amddiffyn dannedd rhag treuliad asid. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth gyfyngedig am hyrwyddo iechyd

yn cael ei dangos ar y waliau yn y practis, ac ni welsom wybodaeth am ymwybyddiaeth o ganser y geg.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.***

Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion. Er enghraifft, trwy ddefnyddio maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

## **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom ganfod bod angen gwella'r broses ddadheintio ar gyfer glanhau offer deintyddol, y trefniadau sicrhau ansawdd yn y practis, a chysondeb cadw cofnodion cleifion.**

### **Cyfleusterau Clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob ystafell driniaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwelsom fod prawf offer trydanol cludadwy wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, oedd yn sicrhau bod y dyfeisiadau trydan bach oedd yn cael eu defnyddio yn y practis yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd y brif ystafell driniaeth mewn cyflwr da ar y cyfan, ac roedd yn lân ac yn daclus. Nid oedd yr ail ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio'n aml, ac nid oedd mor lân â'r brif ystafell driniaeth. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau'r ystafell driniaeth hon. Gwelsom hefyd fod angen rhywfaint o waith ailwampio yn yr ail ystafell driniaeth i fynd i'r afael â'r marciau ar y waliau a difrod i'r gwaith plaster. Yn ogystal, roedd angen llawr newydd yn yr ail ystafell driniaeth gan fod carped ar ran ohono, oedd yn golygu na ellid glanhau'r llawr yn ddigonol. Gwnaethom sylwi yn y ddwy ystafell driniaeth nad oedd y bwllch rhwng y llawr a'r wal wedi ei selio'n ddigonol i allu glanhau yn effeithiol. Dangosodd y deintydd oedd yn bwriadu cymryd yr awenau yn y practis ei gynllun i osod llawr newydd trwy'r practis cyfan, a fyddai'n rhoi sylw i'r mater hwn.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis wella'r llawr yn y ddwy ystafell driniaeth fel bod y bwllch rhwng y llawr a'r wal wedi ei selio i ganiatáu glanhau effeithiol.***

***Dylid codi'r carped oddi ar y llawr yn yr ail ystafell driniaeth gan nad yw'n addas ar gyfer ardal glinigol.***

### **Dadheintio offer deintyddol**

Roedd y practis yn defnyddio ardal ar wahân ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd yr ardal hon wedi cael ei dylunio at y

pwrpas hwn, ac nid oedd yn bodloni rhai agweddau ar y meini prawf a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup> (WHTM 01-05), fel sincipiau penodol ar gyfer golchi dwylo i helpu i reoli heintiau. Nid oedd yr arwynebau yn yr ystafell hon yn hawdd i'w glanhau oherwydd bod yr unedau yn hen. Roedd y practis yn defnyddio powlen a jwg ar wahân ar gyfer glanhau a golchi offer. Gwnaethom drafod y problemau yn yr ardal ddadheintio gyda'r deintydd ac argymhell y dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad o'r fath wedi cael ei ddechrau yn 2014 ond nad oedd wedi cael ei gwblhau. Nid oedd cynllun gwella chwaith i symud tuag at arfer gorau o ran rheoli heintiau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.***

Gwelsom un o'r nyrsys yn dadheintio offer deintyddol, a gwnaethom sylwi nad oedd yn gwisgo ffedog untro. Roedd hyn yn golygu nad oedd staff a chleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag croes-heintio wrth lanhau offer deintyddol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i staff ei ddefnyddio wrth ddadheintio, gan gynnwys ffedogau untro.***

Ar y cyfan, roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau yn y practis yn foddhaol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwiriadau cynnal a chadw wedi cael eu cynnal ar gyfer un darn o offer glanhau i sicrhau ei fod yn gweithio'n ddiogel.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer glanhau (h.y. y bath uwchsonig) yn cael gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.***

Esboniodd y nyrs y gwiriadau dyddiol rheolaidd oedd yn digwydd ar ddechrau a diwedd pob dydd, ac roedd y rhain yn cydymffurfio â gofynion WHTM 01-05. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd rhestr o'r gwiriadau dyddiol hyn yn cael ei chofnodi na'i disgrifio yn y polisi rheoli heintiau. Roedd hyn yn golygu

---

<sup>2</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

bod staff yn gorfod dibynnu ar eu cof o ran gwybod pa wiriadau fyddai angen eu cynnal.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cofnodi manylion gwiriadau dyddiol rheolaidd yn y polisi rheoli heintiau er mwyn i staff gyfeirio atynt. Byddai'n syniad da hefyd i gofnodi'r gwiriadau hyn bob dydd i sicrhau eu bod wedi cael eu cwblhau.***

Yn gyffredinol, gwelsom fod offer deintyddol yn cael eu storio'n briodol a bod system ar waith i sicrhau bod yr offer yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod cadw cymeradwy. Fodd bynnag, pan oedd yr offer deintyddol yn cael eu glanhau, gwelsom mai dim ond stamp gyda'r dyddiad dod i ben oedd yn cael ei roi arnynt ac nid y dyddiad glanhau. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid stampio offer deintyddol gyda'r dyddiad y cawsant eu glanhau a'r dyddiad dod i ben.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr offer deintyddol sy'n cael eu lapio yn cynnwys y dyddiad y cawsant eu glanhau ac, yn arbennig ar gyfer offer deintyddol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, y dyddiad dod i ben.***

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod staff wedi cwblhau hyfforddiant unigol ar ddadheintio yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai pob aelod o staff sy'n cyflawni swyddogaethau dadheintio gael cofnodion hyfforddiant unigol.***

**Gwaredu gwastraff**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o dderbynebaw casglu gwastraff bod contract cyfredol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff.

Roedd llawr cyntaf y practis yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio yn unig, ond gwelsom fod bocs o feddyginiaeth oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben a rhywfaint o offer deintyddol nad oedd wedi cael eu defnyddio'n cael eu storio yn yr ardal hon. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cael gwared ar yr eitemau hyn yn briodol er mwyn sicrhau nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddamweiniol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben ac offer deintyddol nad yw'n addas i'w defnyddio yn cael eu gwaredu'n briodol.***

### **Offer radiograffig (pelydr-X)**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom rai tystysgrifau oedd yn dangos bod staff clinigol wedi cynnal hyfforddiant addas ar ymbelydredd ïoneiddio. Anfonwyd y tystysgrifau hyfforddiant na welsom ar y diwrnod at AGIC yn dilyn yr arolygiad. Gwelsom fod archwiliad sicrhau ansawdd i sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, o ystyried ansawdd amrywiol y delweddau pelydr-X a welwyd, dylai'r practis sicrhau bod archwiliadau o ansawdd delweddau'n cael eu cynnal yn amlach.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer delweddau pelydr-X yn rheolaidd oherwydd amrywiaeth y delweddau a welwyd.***

### **Cyfarpar meddygol a meddyginiaeth frys**

Roedd offer dadebru a chyffuriau ar gyfer achos o argyfwng ar gael i staff pe byddai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd system addas ar waith yn y practis i sicrhau bod offer a meddyginiaeth yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddog cymorth cyntaf penodedig. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol, a mynediad at offer a chyffuriau achub bywyd, i'w galluogi i ymateb yn brydlon pe bai un o'r cleifion yn llewygu. Nid oedd tystysgrifau hyfforddiant ar gael ar gyfer un o'r deintyddion a'r hylenydd ar ddiwrnod yr arolygiad, ond fe'u hanfonwyd at AGIC yn ddiweddarach. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael copïau o'r tystysgrifau hyn er mwyn iddynt allu rhoi sicrwydd bod yr aelodau hyn o staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o wyth o gofnodion cleifion. Ar adeg yr adolygiad, roedd y cofnodion deintyddol yn cael eu cadw ar system electronig, gyda rhywfaint o wybodaeth fel cynlluniau triniaeth yn cael eu cadw fel copïau papur.

Ar y cyfan, gwelsom yn hanesyddol bod cadw cofnodion cleifion yn wael yn y practis ac nad oedd digon o fanylder ynddynt, ond gwnaethom sylw bod hyn wedi gwella'n ddiweddar.

Gwnaethom edrych ar y nodiadau ynghylch radiograffau (pelydrau-X), a gwelsom nad oedd digon o belydrau-X cyffredin wedi cael eu cymryd yn y gorffennol. Fodd bynnag, gwelsom fod hyn wedi derbyn sylw'n ddiweddar. Yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod angen gwella gwerthusiad clinigol pelydrau-X (yr hyn mae'r pelydrau-X yn ei ddangos). Fodd bynnag, gwnaethom drafod hyn â'r deintydd, a ddangosodd i ni'r wybodaeth oedd bellach yn cael ei chynnwys yn nodiadau cleifion er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Roedd pelydrau-X oedd yn cael eu cymryd yn y practis yn cael eu datblygu â llaw gyda sylwedd cemegol, a gwelsom fod ansawdd y delweddau pelydr-X yn anghyson, gyda nifer o ddelweddau o ansawdd gwael. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod hyn wedi gwella'n ddiweddar. Gwnaethom atgoffa'r practis o bwysigrwydd cynnal ansawdd delweddau pelydr-X, gan gynnwys cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd, fel nad oedd cleifion yn agored i ymbelydredd pellach trwy orfod cael profion pelydrau-X ychwanegol i gymryd lle rhai o ansawdd gwael.

Roedd gan y practis dri math o gleifion, y rhai oedd yn cael eu trin dan y GIG, cleifion oedd yn talu'n breifat, a chleifion oedd yn talu'n breifat ar gynllun misol. Gwelsom nad oedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson ar draws y gwahanol fathau o gynlluniau talu ac ar draws triniaethau. Er bod y rhan fwyaf o gydsyniadau gan gleifion y GIG yn cael eu cofnodi'n gywir, nid oedd yr un peth yn wir am y mwyafrif o gleifion preifat a chleifion preifat oedd yn talu bob mis. Gwnaethom gynghori'r practis i roi proses gadarn ar waith ar gyfer nodi cydsyniad cleifion. Mewn trafodaethau â staff, nid oedd yn amlwg chwaith a oedd pob claf, gan gynnwys y rhai ar gynllun talu bob mis, wedi derbyn cynlluniau triniaeth. Nid oedd yr opsiynau triniaeth a drafodwyd gyda chleifion yn cael eu cofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion.

Gwelsom fod angen system gadarn ar waith ar gyfer cael hanes meddygol cleifion gan nad oedd y rhain bob amser wedi cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd. Nid oedd hanes meddygol wedi ei ddiweddarau'n cael ei gofnodi'n gyson chwaith. Nid oedd hanes cymdeithasol fel ysmegu a defnydd o alcohol wedi cael ei gofnodi nes yn ddiweddar. Gwelsom hefyd nad oedd yn glir a oedd sgrinio canser y geg wedi cael ei gynnal a'i egluro i gleifion gan nad oedd wedi cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod angen i'r practis ddatblygu system gadarn o gofnodi risg pydredd yn nannedd cleifion, a dylid defnyddio hwn ar y cyd â'r canllawiau perthnasol<sup>3</sup> i asesu pa mor aml y dylid galw cleifion yn ôl. Dylid cofnodi a diweddarau hyn yn ôl yr angen. Er enghraifft, os yw unigolyn yn cael ei adnabod fel un sydd â risg uchel o gael pydredd yn y dannedd, dylai gael ei weld yn amlach na chlaf sydd â risg isel o gael pydredd yn y dannedd. Hefyd, roedd angen i'r practis sicrhau cysondeb o ran pelydrau-X "bitewing" (pelydr-X deintyddol sy'n cael ei gymryd, yn aml fel rhan o archwiliad deintyddol, i ganfod pydredd yn y dannedd efallai na ellir ei weld a chanfod a oes unrhyw glefyd y deintygig sylfaenol) gan nad oedd hyn yn digwydd yn ddigon aml yn flaenorol.

Gwelsom rywfaint o'r wybodaeth ysgrifenedig am driniaeth oedd ar gael yn y ddeintyddfa i gleifion oedd yn derbyn triniaethau penodol, fel tynnu dannedd. Dangosodd y prif ddeintydd gardiau gwybodaeth eraill i ni ar gyfer amrywiaeth o driniaethau, ond nid oedd y rhain yn cael eu rhoi i gleifion yn rheolaidd. Gwnaethom drafod yr angen i roi gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i gleifion er mwyn iddynt gael amser i ystyried a gwneud penderfyniad gwybodus.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion:***

- ***Sicrhau cysondeb o ran ansawdd delweddau pelydr-X***
- ***Datblygu dull cadarn ar gyfer cael cydsyniad cleifion***
- ***Cofnodi opsiynau triniaeth a drafodwyd gyda chleifion yn gyson a darparu cynllun triniaeth i bob claf***
- ***Datblygu system gadarn ar gyfer cael hanes meddygol cleifion***
- ***Cofnodi gwybodaeth ar sgrinio canser y geg***
- ***Cofnodi'r risg o bydredd yn y dannedd ar y cyd â chanllawiau ail-alw NICE***
- ***Sicrhau bod pelydrau-X "bitewing" yn cael eu cymryd yn aml***

---

<sup>3</sup>Mae canllawiau clinigol ail-alw deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn helpu clinigwyr i benderfynu pryd i ail-alw cleifion rhwng apwyntiadau iechyd y geg ar adegau sy'n bodloni anghenion cleifion unigol.



## ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Ar adeg yr arolygiad, roedd cynlluniau ar waith yn y practis i newid perchnogaeth, ond nid oedd y trosglwyddiad hwn wedi ei gwblhau. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella rhai o'r trefniadau rheoli i helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, fel cynnal arfarniadau staff/adolygu gan gymheiriaid a diweddarau polisïau.**

Mae Deintyddfa Tŷ Sarratt yn bractis sefydledig, ac mae'r prif ddeintydd presennol wedi bod yn berchen arno am y 30 mlynedd diwethaf. Ar adeg yr arolygiad, roedd cynlluniau ar waith i un o'r deintyddion oedd yn gweithio yn y practis gymryd yr awenau, ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau ar gyfer hyn.

Roedd tîm sefydledig o staff yn y practis oedd wedi bod yn gweithio yno am lawer o flynyddoedd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y prif ddeintydd.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Er hynny, gwelsom nad oedd mwyafrif y polisïau'n dangos dyddiad ac nad oedd dyddiad adolygu arnynt i ddangos pa un oedd y fersiwn diweddaraf. Nid oedd mwyafrif y polisïau wedi cael eu llofnodi gan staff i ddangos eu bod yn ymwybodol ohonynt.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiâu'n gyfredol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.***

Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff gontractau, ond nid oeddent ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal oddeutu bob tri mis, ond bod y practis yn defnyddio cyfarfodydd anffurfiol yn bennaf i drafod unrhyw broblemau a materion gwaith clinigol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn. Nid oedd cofnodion cyfarfodydd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, a dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn derbyn copiâu ohonynt. Gwnaethom gynghori'r practis i gyfathrebu yn fwy ffurfiol, er mwyn i gofnodion clir o drafodaethau fod ar gael i'w gweld ac i gyfeirio atynt yn ddiweddarach.

Nid oedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff yn y practis. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod arfarniad blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer pob aelod o staff.***

Gwnaethom drafod pwysigrwydd cael trefniadau ffurfiol ar gyfer goruchwyliaeth glinigol ac adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y deintydd er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, yn arbennig gan y byddai'n gweithio ar ei ben ei hun yn y dyfodol. Dywedodd y deintydd nad oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith, ond cytunodd i ystyried hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli ei drefniadau sicrhau ansawdd ac adolygu gan gymheiriaid ar gyfer staff clinigol yn y practis.***

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth yswiriant yr hylenydd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus (hyfforddiant), ac roedd y rhain yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn cael eu trin gan staff â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol ac sy'n hyderus a chyfarwydd â'u man gwaith. Nid oedd ffeiliau hyfforddiant ar gael ar gyfer un o'r deintyddion a'r hylenydd gan fod y ffeiliau hynny'n cael eu cadw gan yr aelodau unigol o staff. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw copïau o wybodaeth hyfforddiant a gwybodaeth craidd staff, fel hyfforddiant dadebru a chofnodion imiwnedd, er mwyn iddynt fod yn sicr bod hyn wedi cael ei gwblhau.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer mwyafrif yr aelodau o staff, ac roedd y rhain yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion, ond gwnaethom sylwi bod y dyddiad anghywir ar rai o'r tystysgrifau. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r hyfforddwr i gywiro hyn. Nid oedd y derbynnydd wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion.

Yn unol â'r rheoliadau perthnasol<sup>4</sup> ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru ag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Roedd angen diweddarau rhai manylion, a gwnaed trefniadau mewn perthynas â hyn yn dilyn yr arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan un o'r deintyddion dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r deintydd, a gytunodd i sicrhau y byddai'r gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei ddiweddarau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethom drafod y darpariaethau ar gyfer gwiriadau staff gyda'r practis, a gadarnhaodd y byddai'r gwiriadau'n cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw staff newydd.

Roedd trefniadau yn y practis ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom rai cofnodion oedd yn dangos bod staff clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firsau'r gwaed, ac eithrio cofnodion yr hylenydd nad oeddent ar gael. Dywedwyd wrthym fod yr hylenydd wedi derbyn y brechiadau priodol.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau, ac roedd cofnodion cyflawn yn cael eu storio ar wahân i'r llyfr damweiniau er mwyn cynnal cyfrinachedd gwybodaeth y staff a'r cleifion.

Dywedodd staff wrthym mai dim ond un gŵyn oedd y practis wedi ei derbyn yn y blynyddoedd diweddar. Dywedwyd wrthym fod cwynion llafar yn cael eu cofnodi ar y system electronig a'u trosglwyddo i'r prif ddeintydd. Fodd bynnag, gwnaethom drafod â'r practis yr angen i gofnodi pob cwyn mewn llyfr addas, gan gynnwys cwynion llafar ac anffurfiol, er mwyn canfod unrhyw themâu amlwg ac er mwyn defnyddio'r cwynion fel ffordd o wella eu gwasanaeth.

Cawsom fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn cwyno cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella', ac roedd yn cynnwys rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw os oedd

---

<sup>4</sup> Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012 Mae'r rhain yn nodi'r gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion y GIG, a dylai hefyd gyfeirio at y Cyngor Iechyd Cymuned, a allai ddarparu cymorth eiriolaeth i gleifion. Gwnaethom sylwi y gallai'r polisi fod yn fwy eglur mewn perthynas â phwy y gallai cleifion gysylltu â nhw yn dibynnu a oeddent yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Dylai'r polisi hefyd fod yn eglur mewn perthynas â phwy y gall cleifion gysylltu â nhw yn dibynnu a oeddent yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd y practis mewn hen adeilad, ac roedd angen ei ailwampio'n gyffredinol. Ar y cyfan, roedd y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn trwy ddefnyddio ramp pren.**

Mae'r practis ar stryd fawr Trecelyn, ger y brif ardal siopa. Mae gan y practis ddwy ystafell driniaeth ac ystafell aros/derbynfa ar y llawr daear. Roedd llawr cyntaf y practis yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio pethau'n unig. Mae lleoedd parcio cyfyngedig ar gael y tu cefn i'r practis. Mae llefydd parcio hefyd ar gael mewn meysydd parcio cyhoeddus cyfagos.

Roedd prif fynedfa'r practis trwy ddrws ar ochr yr adeilad gyda gris serth. Roedd canllaw ger y drws hwn i helpu cleifion ag anawsterau symud. Roedd mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn trwy ddrws arall, ac roedd ramp pren ar gael i'r diben hwn. Fodd bynnag, roedd y drysau o faint safonol yn y practis, ac mae'n bosib na fyddent yn addas i gadeiriau olwyn mwy o faint. Gwnaethom drafod gwella mynediad i bobl anabl, a dywedodd y deintydd y byddent yn ystyried hyn yn y cynlluniau ar gyfer ailwampio'r practis yn y dyfodol.

Gwelsom fod yr arwyddion yn wael iawn, ac nad oedd arwydd hawdd ei weld y tu allan i'r adeilad i ddangos mai practis deintyddol ydoedd. Roedd hyn yn golygu y byddai'n anodd i unrhyw gleifion newydd ddod o hyd iddo. Nid oedd dim arwyddion i ddangos pa un o ddrysau'r adeilad oedd y brif fynedfa. Roedd arwydd bach ar ddrws y practis yn dangos yr oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Fodd bynnag, roedd y manylion cyswllt mewn argyfwng yn fach iawn, ac nid oeddent yn hawdd i gleifion eu gweld. Cytunodd prif deintydd y practis i roi sylw i hyn.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis wella'r arwydd y tu allan i'r adeilad er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu ei weld yn hawdd.***

Roedd arwydd y tu fewn i'r practis, a gafodd ei osod ar ddiwrnod yr arolygiad, yn dangos enwau a rhifau cofrestru'r holl staff clinigol. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Roedd yr ystafell aros o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd yn lân ac yn daclus.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis angen ei ailwampio, ond roedd yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd tamprwydd i'w weld mewn rhai ardaloedd ac o amgylch y ffenestri. Roedd y brif ystafell driniaeth

mewn cyflwr boddhaol, ond roedd angen llawr newydd yn y ddwy ystafell driniaeth (gan gynnwys y carped yn yr ail ystafell driniaeth) er mwyn galluogi dadheintio effeithiol. Rydym wedi cynnwys hyn mewn argymhelliad yn adran Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru yr adroddiad hwn (tudalen 9). Dangoswyd rhai cynlluniau i ni ar gyfer y gwaith ailwampio helaeth oedd yn mynd i ddigwydd unwaith i berchnogaeth y practis gael ei drosglwyddo, oedd yn cynnwys ffenestri, drysau a defnyddiau llawr newydd ac ystafell ddadheintio newydd.

Roedd gan y practis doiled neillryw i gleifion ar y llawr daear, ond nid oedd yn hawdd mynd ato gan fod mynediad yn cael ei rwystro rhywfaint gan ddrws agored i'r ardal ddadheintio. Roedd y toiled yn lân yn gyffredinol ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Roedd arwydd ar gyfer toiled y staff ar ddrws oedd yn arwain at lawr cyntaf yr adeilad. Roedd y drws wedi ei gloi, ac roedd aelodau o staff yn cadw'r allwedd. Roedd y toiled ar y llawr cyntaf yn fudr iawn, ac nid oedd yn addas ar gyfer ei ddefnyddio. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a gadarnhaodd nad oedd y toiled hwn yn cael ei ddefnyddio gan staff bellach, a gwnaethom gynghori'r practis i dynnu'r arwydd.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd diffoddwyr tân wedi eu harchwilio'n ddiweddar. Nid oedd archwiliad manwl o systemau eraill ar gyfer amddiffyn tân yn rhan o'r arolygiad hwn; fodd bynnag, cyfrifoldeb y practis yw sicrhau bod mesurau a systemau addas ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân.

Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedodd staff wrthym fod copi wrth gefn o gofnodion electronig yn cael ei gadw'n feunyddiol ar weinydd oddi ar y safle. Roedd rhywfaint o wybodaeth cleifion hefyd yn cael ei storio mewn cypyrddau ffeiliau y tu ôl i ddesg y dderbynfa, a dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch a gwarchodaeth cleifion a'u gwybodaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Deintyddfa Tŷ Sarratt yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Deintyddfa Tŷ Sarratt**

**Dyddiad yr Arolygiad: 10 Mawrth 2015**

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
7	Dylai'r practis ddatblygu dull cadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.  [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 5a-c]	Blwch awgrymiadau i gael ei osod yn y dderbynfa. Holiaduron i gael eu defnyddio'n amlach.	RD	Ar unwaith
7	Dylid diweddarau'r wybodaeth ar daflenni'r practis gyda'r manylion cywir er mwyn i gleifion allu cysylltu â'r bwrdd iechyd.  [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, adran 1.3.3]	Diweddarau'r manylion cyswllt yn y daflen	MTE	Cwblhawyd



Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
8	<p>Dylai'r practis ystyried rhoi gwybodaeth bellach i gleifion ynghylch hyrwyddo iechyd, gan gynnwys ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.</p> <p>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 3b-c]</p>	Tafleddi/posteri pellach i gael eu darparu	MTE/HS	4 wythnos
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
9	<p>Dylai'r practis wella'r llawr yn y ddwy ystafell driniaeth fel bod y bwlch rhwng y wal a'r llawr wedi ei selio i ganiatáu glanhau effeithiol.</p> <p>Dylid codi'r carped yn yr ail ystafell driniaeth gan nad yw'n ddefnydd llawr addas ar gyfer ardal glinigol.</p> <p>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 6.46 – 6.48]</p>	I gael ei gynnwys yn y cynlluniau ailaddurno/ailldatblygu pan gaiff perchnogaeth y practis ei drosglwyddo	HS	Pan fydd perchnogaeth yn newid
10	<p>Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.</p> <p>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 1.8]</p>	<p>Archwiliad wedi ei ddechrau ac wedi cofrestru gyda Deoniaeth Cymru</p> <p>Bwriedir cynnal archwiliad blynyddol a chynllunio camau gweithredu yn ôl canlyniadau'r archwiliad</p>	BP	Dau fis

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	Dylai'r practis sicrhau bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i staff ei ddefnyddio wrth ddadheintio, gan gynnwys ffedogau untro. [Canllawiau WHTM 01-05, adran 6.25-6.26]	Dillad diogelu i fod ar gael i staff	ME	Cwblhawyd
10	Dylai'r practis sicrhau bod y bath uwchsonig yn cael ei brofi'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. [Canllawiau WHTM 01-05, adran 14.4]	Defnyddiau profi wedi eu harchebu a llyfrau cofnodi wedi eu cwblhau. Gwiriadau i gael eu cynnal yn unol â'r amserlen	BP	Ar waith
11	Dylid cofnodi manylion gwiriadau dyddiol yn y polisi rheoli heintiau er mwyn i staff gyfeirio atynt. Byddai hefyd yn syniad da i gofnodi'r gwiriadau hyn bob dydd i sicrhau eu bod wedi cael eu cwblhau. [Canllawiau WHTM 01-05, adran 4.19]	Rhestr wirio ddyddiol i gael ei gosod yn y polisi ynghyd â rhestr i staff roi tic arni i ddangos bod gwiriadau wedi eu cwblhau.	MTE	Cwblhawyd
11	Dylai'r practis sicrhau bod offer deintyddol sy'n cael eu lapio yn cynnwys dyddiad glanhau a'r dyddiad dod i ben, yn arbennig ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. [Canllawiau WHTM 01-05, adran 1.24 a 24k]	Stampio'r offer deintyddol gyda'r ddau ddyddiad	BP/LD	Cwblhawyd
11	Dylai pob aelod o staff sy'n cyflawni	Cofnodion hyfforddiant unigol i gael eu cadw,	MTE	Ar waith

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>swyddogaethau dadheintio gael cofnodion hyfforddiant unigol.</p> <p>[Canllawiau WHTM 01-05, adran 24o]</p>	<p>staff wedi cael lle ar gwrs hyfforddi</p>		
12	<p>Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth ac offer deintyddol nad ydynt yn addas i'w defnyddio bellach yn cael eu gwaredu'n briodol.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, adran 1.5]</p>	<p>Mae pob cyffur y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben wedi cael ei waredu.</p>	MTE	Cwblhawyd
12	<p>Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau yn rheolaidd oherwydd amrywiaeth y delweddau a welwyd.</p> <p>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 6a; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>	<p>Archwiliadau i gael eu cynnal yn amlach – bob dau fis.</p>	LD	Archwilio wedi dechrau
14	<p>Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau cysondeb ansawdd delweddau pelydr-X</li> <li>• Datblygu dull cadarn ar gyfer cael</li> </ul>	<p>Sicrhau defnyddio dyfeisiadau anelu pelydr, gosodiadau cywir, defnyddio cyflinydd, a gwiriadau cemegol rheolaidd</p>	HS	Wedi'i sefydlu ac yn barhaus

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>cydsyniad cleifion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodi opsiynau triniaeth a drafodir gyda chleifion yn gyson a rhoi cynlluniau triniaeth i bob claf</li> <li>• Datblygu system gadarn ar gyfer cael hanes meddygol cleifion</li> <li>• Cofnodi gwybodaeth sgrinio ar gyfer canser y geg</li> <li>• Cofnodi'r risg o bydredd yn y dannedd ar y cyd â chanllawiau ail-alw NICE</li> <li>• Sicrhau bod pelydrau-X "bitweing" yn cael eu cymryd yn briodol o aml</li> </ul> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 20c; 7a]</p>	<p>Ffurflen gydsyniad wedi ei datblygu – i'w defnyddio'n gyffredinol</p> <p>Sicrhau bod trafodaethau ac opsiynau'n cael eu cofnodi</p> <p>Sicrhau bod pob profforma'n cael eu diweddarau a'u llofnodi</p> <p>Sicrhau bod canser yn cael ei grybwyll o fewn archwiliad meinwe meddal</p> <p>Datblygu system i gofnodi'r risg o bydredd yn y dannedd gydag ail-alwadau NICE, a'i gosod mewn safle hygyrch yn y nodiadau</p> <p>Datblygu amledd pelydr-X yn unol ag asesiad risg a'i gofnodi mewn lle hawdd ei weld yn y nodiadau</p>	<p>HS</p> <p>HS</p> <p>HS</p> <p>HS</p> <p>HS</p> <p>HS</p>	
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
15	Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyffredol a bod y staff yn	Adolygu pob polisi a sicrhau ei fod yn gyffredol ac wedi'i lofnodi gan staff	MTE	Ar waith dros y pythefnos nesaf

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ymwybodol ohonynt. [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 22b; 25e]			
16	Dylai'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff. [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 20c]	Arfarniadau dechreuol i gael eu sefydlu ac yna gellir cynnal adolygiad blynyddol	MTE	Wedi dechrau
16	Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd ac adolygu gan gymheiriaid i staff clinigol yn y practis. [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, adran 6a-e]	Archwiliadau ac adolygu gan gymheiriaid i gael eu trefnu gyda phractisau cyfagos cyn gynted ag y bydd yn gyfleus	HS	Tri mis
18	Dylid diweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Dylai'r polisi hefyd fod yn glir ynghylch pwy gall cleifion gysylltu â nhw yn dibynnu a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Polisiâu wedi eu diweddarau i gynnwys y manylion cywir	MTE	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	5.1.5]			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
19	Dylai'r practis wella'r arwydd y tu allan i'r adeilad i sicrhau bod cleifion yn gallu ei weld yn hawdd. [Gwelliant a Argymhellwyd]	Newid yr arwydd pan fydd y practis yn trosglwyddo i'r perchennog newydd	HS	Pan fydd y practis yn trosglwyddo i'r perchennog newydd

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch): Michael Thomas Evans**

**Teitl: Perchennog y Practis**

**Dyddiad: 1 Ebrill 2015**